Mehefin 2018 Rhif 267

Catrin a Luned yn cefnogi eu mam drwy driniaeth cancr

Race for Life

CANCER RESEARCH UK

Dyma lun o Catrin a Luned Daniel wedi gorffen y Ras am Fywyd gyda chymorth Elin Royles a Lleucu, Catherine Griffiths a Branwen (chwaer Illtud) a'i merched Anna ac Eos. Mae Catrin a Luned wedi llwyddo i godi tua £4,000 at Ymchwil Cancr (CRUK). Hoffai Nia ac Illtud Daniel ddiolch yn fawr i ffrindiau a theulu am eich cefnogaeth ac am gyfrannu mor hael. Mae Nia ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth chemotherapi yn Ysbyty Bronglais ar gyfer cancr y fron.

Ar y llwyfan

Llongyfarchiadau mawr i Owain Gruffydd mab Meleri a Morys Gruffydd ar gael ei ddewis i fod yn aelod o Gwmni Theatr Ieuenctid Cymru. Bydd Owain yn treulio cyfnod yn Theatr Clwyd Yr Wyddgrug yn ystod gwyliau'r Haf, ac yn cael cyfle i weithio gyda actorion a chyfarwyddwyr o Gwmni Theatr Cenedlaethol Cymru.

Gair gan Eifion

Mae hi'n ddydd Sadwrn y Cup Final! Yn wahanol i'm brawd, tydw i ddim yn ddyn pêl-droed. Do, fel pob plentyn arall fe ddewisais dïm i'w gefnogi, ond prin fu'r brwdfrydedd! Wn i ddim beth oedd y rheswm tros ddewis Derby County yn hytrach na timau fel Man U neu Lerpwl neu hyd yn oed Stoke City, yr unig beth allai feddwl oedd yr arwyddlun. 'Roedd cymydog yn cadw defaid a byddai'n rhaid eu gwarchod tra byddai ef a'i wraig yn ymweld â'r mab yn Barrow in Furness. Bwydo, cario dŵr, gwarchod y ci a gan ei fod yn rhentu tir hanner milltir o'i gartref byddai'n rhaid cerdded yn ddyddiol a llusgo pelen o wair ar gert bychan wedi ei wneud o hen ffrâm coets babi. Beth bynnag am hynny, fum i erioed yn gwylio'r 'Rams' yn chwarae ac yn wahanol i ambell ffrind ysgol, ches i ddim y 'kit' hefyd. Yr unig 'git' ges i 'rioed oedd un Ysgol Pentreuchaf. Geiriau blynyddol y diweddar Mis C E Jones y brifathrawes wrth ddewis tïm peldroed oedd "Eifion, mi gewch chi fod yn sub!" Ac felly y byddai hi! Yn flynyddol, aros ar yr ochrau fyddwn i ac yn dawel bach yn gweddïo na fyddai neb o'r bois yn anafu neu mynd yn sâl. A dyna pam na fyddai'n gwylio'r Cup Final o flwyddyn i flwyddyn, mae'r awydd yn brin. Mae criced a golff yn bethau sy'n apelio ac yn arbennig felly golff gan mai yno roedd fy niddordeb a Chlwb Golff Nefyn yn Feca wythnosol.

Rhan o weithgaredd capeli'r Eglwys Bresbyteraidd yn Llŷn ac Eifionydd fyddai'r hyn oedd yn cael ei alw yn Sasiwn y Plant. Maes Llafur, arholiad, canlyniadau, gorymdaith ac yna oedfa wobrywo. Mae'r darluniau'n fyw yn y dychymyg ac yn arbennig un. Ar ddydd Cup Final fe fyddai un o'r gweinidogion yn cyhoeddi'r sgôr yn ystod yr oedfa! Mi 'roedd hyn yn ddirgelwch i ni ar y dechrau ond buan iawn y daethom i sylwi ei fod yn llithro allan cyn y cyhoeddiadau ac yn dychwelyd gyda'r wybodaeth. Peth handi oedd 'transistor radio' mewn poced! A heddiw mae'r cyfan yn llifo'n ôl a hynny mewn dyddiau gwahanol.

‘Fory fe fydd hi’n Sul y Pentecost, cyfle i Gristnogion ddod at ei gilydd i gofio am ddigwyddiadau’r Oruwch Ystafell ond hefyd i ddathlu’r ddealltwriaeth o Gymuned Gristnogol. I gymdeithas ôl Gristnogaeth sefydliadol mae hynny’n rhywbeth dieithr a’r geiriau ‘Pentecost’ a ‘Sulgwyn’ yn golygu dim ac i’r rhai sydd wedi colli diddordeb, atgofion bellach yw unrhyw sôn am Eglwys ac addoliad, brwdfrydedd a ffyddlondeb. Yng nghanol y realiti hwnnw mae yna wahoddiad i chi a fi ail ddarganfod beth yw ystyr bod yn Eglwys. Yn fyd eang, yn Gorff Crist ar y ddaear ond efallai’n bwysicach, yn lleol. Yn athrawiaethol, ysbrydol ond hefyd yn ymarferol a dim yn fwy na’r modd yr ydan ni’n adnabod a deall ein gilydd. Beth yw ystyr bodolaeth oddi mewn i gymdeithas a sut ydan ni’n adnabod a gwasanaethu’r gymdeithas honno. I’r perwyl hwnnw nid ‘subs’ y mae Duw yn eu galw ond yn hytrach pobl o argyhoeddiad a phobl sy’n adnabod un peth yn fwy na dim sef cariad. Y cariad hwnnw sydd o Dduw, datguddiedig ym mherson Crist sydd yn tanio fflam eich cariad chi a fi. O adnabod y cariad hwnnw y byddwn yn dechrau byw fel eglwysi!

Mae’r haf ar y gorwel! Eifion.

Clwb Ieuenctid

Mae’r clwb yn cyfarfod ar nos Lun yng Nghapel Dewi Sant, rhwng 3.45 a 5 o’r gloch y prynhawn yn ystod tymor ysgol. Croeso i unrhyw un ymuno os nad ydych wedi dod yn barod. Cyfle i gymdeithasu, chwarae tenis bwrdd, snwcer, a digonedd o amser i sgwrsio. ‘Rydym hefyd yn trefnu trip ar nos Wener y 29ain o Fehefin i chwarae bowlio deg yng Nglan Llyn, ac yna swper ar y ffordd adre yng Ngwesty’r Eryrod, Llanuwchllyn. Cyfarfod yn maes parcio Y Morlan am 4:30yp. Os oes diddordeb gan unrhyw un yna anfonwch ebost i elenwynj@gmail.com

Edrych ymlaen i’ch gweld! Elen

Newyddion Perthyn

Bedyddiwyd

Ar fore Sul Mai 6ed bedyddiwyd Macsen Morgan Lewis. mab Catrin a David Lewis.

ac ar fore Sul Mai 20fed bedyddiwyd Ianto, mab Mark Strong a Johanna Breyer a brawd i Hans.

Dymunwn yn dda i'r ddau deulu.

Llongyfarchiadau …

i Huw Owen am wasanaethu fel blaenor yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru am 40 mlynedd. Cafodd ei longyfarch gydag eraill yn ystod Cymdeithasfa'r De a gynhaliwyd yn Nhrefdraeth.

i Stephen Nantlais Williams ar gael ei ethol yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig
Cymru.

Llongyfarchiadau i'r athrawon, rhieni a phlant Yr Ysgol Sul a fu'n rhedeg yn y ras am fywyd ac a gafodd eu noddi er mwyn cefnogi'r elusen Ymchwil Cancr.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at …

Geraint Morgan, Mary Morgan ac Ann Skitt sydd wedi derbyn triniaeth ac wedi dychwelyd adref erbyn hyn. Hefyd at ein holl aelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi neu mewn cartrefi gofal.

Yr Ysgol Sul

Gwasanaeth Plant a Ieuenctid

Diolch i'r plant a'r ieuenctid a gymerodd ran yn y defosiwn a'r rhai fu'n casglu ac yn cynorthwyo gyda'r lluniaeth yn y festri ar ddiwedd y gwasanaeth. Derbyniwyd casgliad o £239 tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Dyddiad i'w gofio

Bore Sul, Mehefin 24ain am 11.30. o'r gloch yn y Morlan

GŴYL YR YSGOLION SUL

yng nghwmni Criw Coleg y Bala
Cinio Barbiciw ar y diwedd

Newyddion Ebeneser

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion i gyd a'r rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal.

Roedd hi'n braf croesawu Ann Skitt yn ôl i'r gwasanaeth ar brynhawn Sul yn ddiweddar, yn dilyn ei thriniaeth. Mae pawb yn gwerthfawrogi'r gymdeithas gynnes sydd yn perthyn i gynulleidfa Ebeneser a'r consyrn a'r gofal am ei gilydd.

Bwlchgwynt yn croesawu Sasiwn y Chwiorydd

Daeth tyrfa dda i Dregaron i Sasiwn Chwiorydd y De ddydd Iau 17 Mai. Roedd dau gyfarfod, a'r ddau yn cynnig arlwy gwahanol ond hynod ddiddorol. Menna Machreth oedd y siaradwr gwadd yn y prynhawn. Mae Menna yn gweithio i Gymdeithas Genhadol y Bedyddwyr ac yn frwdfrydig iawn dros y genhadaeth. Ond rôl merched oedd wedi mynd a'i sylw yn y cyfarfod prynhawn. Cyfeiriodd at amryw o ferched oedd yn agos at yr Iesu ac at y merched fel Mair Magdalen sef y tystion cyntaf i'r atgyfodiad. Ond nid digwyddiad di-sylw oedd hwnnw, roedd merched hefyd yn amlwg iawn yn y genhadaeth wedi hynny. Roedd merched fel Lydia yn allweddol i hanes yr efengyl yn gwreiddio yn Thesalonica er enghraifft. Roedd felly yn annog merched heddiw hefyd i gymryd rôl flaenllaw i ddangos Iesu i'r byd a denu pobl ato.

Mari Lloyd Williams yr arbenigwr meddygol ar feddyginaeth liniarol ac yn arweinydd amlwg iawn yng nghapel bach Gawaungoleugoed ger Llanelwy oedd yr ail siaradwr. Rhannodd Mari, yn ei ffordd ysbrydoledig ei hun, hanes y gwaith gofal dydd a wneir yn y capel. Dim ond llond dwrn o aelodau sydd yn yr eglwys ond cawsant y

weledigaeth a'r egni i godi festri fach ac addasu'r tŷ capel i fod yn Ganolfan Ddydd i'r henoed ac i bobl sydd â dementia. Cofiai Mari ddechreuadau'r gwaith a'r brwdfrydedd oedd ymhlith yr aelodau, ond y siom cychwynnol oedd mai dim ond dau a ddaeth i'r sesiwn gyntaf. Ond yn araf bach fe dyfodd y niferoedd, a bellach fe gynigir dau ddiwrnod gofal. Mae gofalwyr yn canmol y gwaith, gan dystio pa mor werthfawr yw cael canolfan o'r fath. Erbyn mae na ddwy sesiwn yr wythnos lle mae pobl yn cael mwynhau cwmni ei gilydd, yn troi eu llaw at grefftau syml, yn cael dau bryd bwyd, a'r cyfan yn enw Crist.

Bellach datblygodd y gwaith ymhellach gan gynnig cymorth yn y cartref i ofalwyr. Mae gwirfoddolwyr yn cynnig cymryd gofal yn y cartref am ychydig oriau er mwyn i ofalwyr gael hoe a chyfle i gyflawni'r pethau bach hynny nad oes byth gyfle i'w gwneud.

Rhwng y ddwy siaradwraig a'r te rhagorol oedd wedi ei baratoi aeth y merched am adref wedi diwrnod buddiol iawn ac ysbrydoledig hefyd. Gwelwyd drwy gyfraniad Menna a Mari fod modd cyflawni pethau mawr yn enw Crist.

Hefyd trosglwyddwyd siec am £9000 i Nan Wyn Powell-Davies ar ran chwiorydd Sasiwn y De. Roedd ein cyfraniadau ni yn Ebeneser a Chapel y Morfa yn gynwysiedig yn hwn. Diolch i chi i gyd.

Derbyniwyd adroddiad am yr elusennau a phrosiectau a dderbyniodd gymorth ariannol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – Cornerstone Uganda, Ysbyty Tebelong Lesotho a phrosiect Reaching Romania. Yn ogystal a hyn, rhoddwyd cymorth i brosiectau yma yng Nghymru. Cafwyd cyfle i gynorthwyo teuluoedd ym Madagascar a ddioddefodd o ganlyniad i ddamwain bws trwy eglwys leol yno. Hefyd estynnwyd croeso i deuluoedd Twŵr Grenfell i aros yn Nhrefeca.

Dai Alun, Cei Conna a Moscow

Cyn iddo bacio ei fag a hedfan i Moscow dyma gael gair gydag Is-lywydd Cymdeithas Bêl Droed Cymru ac yr oedd siom gêm derfynol Cwpan Cymru yn dal ar ei feddwl.

"Roeddwn i yn siomedig iawn gyda'r canlyniad," meddai, "ond gallai Cei Connah fod wedi rhoi crasfa waeth i Aberystwyth. Rydw i'n siomedig iawn fod clwb fel Aberystwyth mor ddibynnol ar chwaraewyr o bell. Yn y gêm gynghrair olaf yn erbyn Caerfyrddin mi ges i'r fraint o wobrwyo chwaraewyr tîm ieuenctid Aberystwyth wedi eu llwyddiant dan reolaeth Iwan Bryn Roberts. Mae dau ohonynt wedi chwarae i dîm ieuenctid Cymru, ond dim ond dau ohonynt sydd yng ngharfan tre Aberystwyth. Dydi o ddim yn iawn."

Mae diddordeb Dai Alun mewn pêl-droed lleol yn angerddol, ond yn sylfaenol diddordeb y cyn chwaraewr sydd yn ei yrru. Pan ddaeth ei yrfa fel chwaraewr i ben cafodd ei ddenu gan weinyddiaeth y gêm. Ymhen dim yr oedd yn Ysgrifennydd y gynghrair lleol. Ond fel ysgrifennydd roedd yn cael ei anfon i bwyllgorau rhanbarthol. Felly y cam nesaf oedd dod yn Ysgrifennydd y Canolbarth ac o hynny cyrraedd pwyllgor canolog Cymdeithas Pêl Droed Cymru.

Mae bellach ar ei ail dymor fel Is-Lywydd y Gymdeithas, ac yn sgîl hynny y mae'n pacio'i fagiau i fynd i Moscow ar gyfer Pwyllgor Canolog FIFA ac yna bydd ym mhlith y gwahoddedigion yn seremoni agoriadol Cwpan y Byd. Byddai wrth ei fodd petai Cymru yn chwarae yno, ond Rwsia yn erbyn Saudi Arabia yw'r timau y caiff eu gweld yn Moscow cyn iddo ddychwelyd adref.

Bydd Pwyllgor Canolog FIFA yn trafod rheolau pêl-droed y byd ond hefyd yn

trafod y milynau lawer o bunnoedd sydd yn llifo i goffrau'r corff am hawliau teledu gemau.

"Mae hi wedi bod yn gyfnod cythryblus yn FIFA," meddai Dai, sydd wedi bod yn un o gynrychiolwyr Cymru yn y Pwyllgor yn Bahrain a Mecsico yn y blynyddoedd diwethaf, "ond mae pethau wedi gwella yn arw yn ddiweddar." Mae'n falch iawn fod FIFA yn trafod trefniadau teledu drwy'r byd a EUIFA yn trefnu yn Ewrop, "Nid yw Cymdeithas Pêl-Droed Cymru wedyn yn gorfod trafod hawliau a phris dim ond bod yn rhan o'r trafod sut mae'r arian yn cael ei rannu."



"Tydw i ddim yn deithiwr brwd, mae'n well gen i fod adref," ychwanegodd, "er rhaid cydnabod mod i'n edrych ymlaen i fynd i Rwsia er mwyn gweld pa mor wahanol yw eu ffordd o fyw. Byddaf yn siŵr o geisio mynd i un o'r cadeirlannau Uniongred yn y ddinas. Pryd bynnag fyddaf i yn teithio byddaf yn siŵr o daro mewn i eglwys neu gapel. Er dwi wedi fy siomi ambell waith, cofiwch. Cofio mynd i eglwys hynafol yn yr Eidal, a sôn am siom – roedd y canhwyllau gweddi i gyd yn gweithio efo batri a'r emynau yn cael eu cyhoeddi drwy banel oedd yn goleuo fel panel gêm bingo! Gobeithio y bydd yr iconau Uniongred yn fwy ysbrydoledig."Cwta wythnos fydd Dai Alun yn Rwsia ond nid y daith sydd yn ei ysbrydoli, ond yn hytrach pobl ifanc fel tîm ieuenctid Aberystwyth. "Mae'r un egwyddor yn y capel hefyd," ychwanegodd, "ein gwaith ni ydi parchu doniau pobl ifanc a rhoi cyfle iddyn nhw. Mae angen i ni fod yn agos at blant a phobl ifanc, dangos diddordeb ynddyn nhw ac yn eu ddiddordebau nhw a'u hannog i roi eu gorau o hyd. Siwrne dda i Dai Alun a phob bendith ar ei waith.

Cymanfa ganu

Erbyn heddiw mae'r gair 'cymanfa' ynddo'i hun yn golygu cymanfa ganu. Ond gwir ystyr y gair yw cynulliad o bobol, pobol yn dod at ei gilydd. Dyna a gafwyd yn y ddau gyfarfod yng Nghapel y Morfa ddydd Sul, 13 Mai, sef cyfle i bobol o nifer o eglwysi'r cylch ddod at ei gilydd i rannu mawl. Dan arweiniad medrus Llio Penri yng nghyfarfod y plant a'r ieuenctid yn y bore ac Alwyn Evans yng nghyfarfod yr hwyr cafwyd cyfle i ganu a phrofi emynau a thonau, eu mwynhau a'u cyflwyno yn fawl i Dduw.

Diolch o galon i bawb a fu'n trefnu, yn cymryd rhan ac yn cefnogi.

'Mawl sy'n ddyledus i ti, O Dduw, yn Seion; ac i ti, sy'n gwrando gweddi, y telir adduned.' (Salm 65: 1–2)

Croeso i Gapel y Morfa!

Mae mudo bob amser yn ddigwyddiad mawr ym mywyd rhywun. Ond wrth fudo mae ceisio gosod gwreiddiau newydd a darganfod ffrindiau o'r un anian yn eithriadol o bwysig. Dyna un o fanteision mawr bod yn aelod o eglwys, ac felly digwyddiad braf iawn oedd cael croesawu dwy aelod newydd i Gapel y Morfa, y ddwy yn symud i'r ardal i fod yn nes at y teulu. Yr hyn sydd yn rhyfedd ydi fod y ddwy hefyd wedi bod yn briod gyda mathemategwyr ... rhyfedd iawn o ystyried faint o fathemategwyr sydd yng nghapel y Morfa hefyd, dau a dau yn gwneud chwech tro yma dwi'n siwr.

O ardal y Preseli y mae Ann Gruffydd yn wreiddiol, un o bobl y wes wes felly. Ond bu'n byw am gyfnod sylweddol yn Lerpwl lle roedd ei gŵr Tom yn brif ddarlithydd mewn mathemateg. Ond wedi geni Morys roedd yr ysfa i ddychwelyd i Gymru wedi cydio, ac ar ôl pymtheg mlynedd yn Lerpwl dyma ddychwelyd i Sir Benfro er mwyn i Morys gael addysg uwchradd Gymreig.

Unwaith iddi ddychwelyd cydiodd mewn gwaith, fel athrawes bro am gyfnod ond yna symud i Ysgol Crymych lle roedd hi'n gweithio fel athrawes cynnal iaith. Arhosodd yn Sir Benfro wedi ymddeol a thref Abergwaun yn gartref am yr ugain mlynedd diwethaf. Yna daeth y penderfyniad i ddod yn nes at Morys a'r teulu ac felly codi pac a mudo o Abergwaun i Aberystwyth. Y mae eisoes wedi ymgartrefu yma, "a rydw i'n hapus hefyd i fod yn aelod mewn capel mor gartrefol â Chapel y Morfa". Croeso cynnes i'n plith.

Rhyfedd iawn yw'r cyd-ddigwyddiadau oherwydd athrawes oedd Mona Chambers hefyd sydd wedi mudo o Fangor i Aberystwyth a chartrefu yng Nghapel y Morfa. Ond merch y Mans yw Mona, wedi treulio rhan helaethaf o'i phlentyndod yn Llanefydd ar gyrion Dyffryn Clwyd. Roedd ei thad Henry Rees Owen yn weinidog yno. Mae'n cofio treulio dwy flynedd gyntaf ei chyfnod yn yr ysgol uwchradd yn Abergele, gan aros mewn tŷ lojin drwy'r wythnos, a'i thad yn ei danfon yno ar fore Llun yn ei Austin 7. Ond wedi hynny agorodd ysgol i fechgyn a merched yn Ninbych ac yno y bu hi.

Aeth i Brifysgol Bangor i astudio'r Gymraeg dan ofal Ifor Williams, cyn mynd wedyn yn athrawes Gymraeg i Ysgol Botwnnog, ac yno y bu am wyth mlynedd. "Roedd o'n lle drwg i fynd," meddai, "achos roeddech chi eisiau aros yno!" Ac aros a wnaeth hi tan iddi briodi Gwyn Chambers. Roedd yn ei gofio yn y Coleg yn ei flaser llachar a'i wallt cyrliog gwyllt. Ond fe fu Gwyn ar grwydr yn ystod y rhyfel yn cyflawni gwaith mathemategol cyfrinachol. Cyfarfu'r ddau eto ac erbyn 1955 roedden nhw yn briod ac yn byw ym Mangor a Gwyn yn ddarlithydd yno.

Ym Mangor y bu Mona tan yn ddiweddar, ac ar ôl colli Gwyn yn 2014 roedd symud yn nes at Huw yn ddigon naturiol. Fe fu'n weithgar iawn yng Nghapel y Graig ac yn Berea Newydd ym Mangor, ac er ei bod yn colli cyfeillion Bangor, "mae pawb yn y Morfa yn groesawgar a charedig" ac y mae wedi setlo'n dda. Croeso cynnes iawn iddi hithau hefyd.

Cymdeithas y Morfa

Ar nos Lun, Mai 14eg cynhaliwyd taith gerdded Y Gymdeithas o dan arweiniad Rhys a Trish Huws. Roedd hi'n noson heulog braf ac fel arfer y Morlan oedd y man cyfarfod am 6 o'r gloch. Yn wahanol i arfer aethom allan o'r dre i gyfeiriad Tal-y-bont lle mae cartref Rhys a Trish.

Wedi cyrraedd canol y pentref cawsom glywed gan Rhys am yr holl Gymdeithasau a gweithgareddau diwylliannol sydd yn perthyn i'r ardal. Aethom yn hamddenol i gyfeiriad Bont-goch ac yna yn ôl ar hyd ffordd gul tuag at yr eglwys a chroesi'r ffordd fawr gan basio capeli Bethel a Nasareth. Wrth ddilyn y lôn gefn gwelwyd rhan o Dal-y-bont sydd yn ddieithr i'r rhai ohonom sydd fel arfer yn gyrru drwy'r pentref.

Cyn dychwelyd adref cawsom gyfle i fwynhau pryd o fwyd a mwynhau cymdeithas â'n gilydd. Edrychwn ymlaen at ein taith flwyddyn nesaf, i ba ardal yr awn bryd hynny tybed?

Cofiwch:

Trip y Gymdeithas ar ddydd Mercher, Mehefin 6ed (*Sylwch ar y newid dyddiad)* i'r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn a mannau eraill diddorol

Pris: dim mwy na £45 (bws, coffi, cinio ysgafn ganol dydd, cinio nos

a thâl mynediad)

Gadael am 9.30. Adre erbyn 8.30.- 9 o'r gloch

Enwau i Hefin Jones os gwelwch yn dda (neu Eleri Davies)

Big Brekkie
Dewch i rhoi a chyfrannu
BRECWAST MAWR
BIG BREKKIE
8.00-10.00, bore Mawrth, 15 Mai
8.00-10.00am, Tuesday, 15 May
Canolfan Morlan Centre
christian aid week
13–19 MAY
wythnos cymorth cristnogol
13–19 MAY

Mae'n braf rhedeg yn yr haul

O'n i wedi ei gadael hi tan yn hwyr y prynhawn a hwyl y Gymanfa a'r Ras am Fywyd wedi dechrau tawelu a'r haul ddim ar ei anterth.

A haul felly sy'n bwrw cysgodion.

Pan sylwais i arno gyntaf doedd o fawr mwy na deilen fach grin yn cael ei chodi gan fymryn o awel. Glöyn, a'i ddwy adain wedi eu cau fel dwy law mewn gweddi dynn, yn ddi-liw ac yn ddi-sylw. Ond fe gododd a dangos ei liwiau i'r haul.

Roedd yr haul yn bwrw ei gysgod yn aflonydd flêr ar y palmant llwyd oddi tano. Ac am sbel wedyn bu wrthi'n ymryson â'i efaill tywyll. Roedd hi fel petae ei enaid wedi cael ei fwrw allan ohono. Ac er eu bod nhw'n ddau beth ar wahân, doedd dim gwahanu arnyn nhw chwaith. A'r mwyaf aflonydd oedd y naill, wrth reswm roedd ei gysgod yr un mor aflonydd. Wrth i'r naill chwilio a chwalu a thoi a throsi roedd y llall yn chwarae mig ac yn gwrthod cael ei ddal am eiliad.

Roedd o'n methu a dod o hyd i unrhyw lonyddwch. Chwiliai ffordd hyn a chwiliai ffordd acw. Dilynai olau llachar am ryw ychydig cyn cymryd ei ysgubo gan ochenaid o awel. Arhosai, fel petae am fentro ar ryw ddeilen. Ond roedd honno'n simsanu dan ei bwysau, er mai go brin y gellid dirnad ei bwysau, er cyn brydferthed ei olwg.

Parhaodd i chwilio, a'r ddawns yn gyfareddol. Deuai'n nes ac yn nes at ei gysgod ei hun. Bron â chyrraedd yr undod perffaith hwnnw. A methu. Codi drachefn ac igam-ogamu ei ffordd drwy'r byd a'i enaid

tywyll bron a diflannu'n lychyn ar y tarmac oddi tano. Ond doedd o ddim am ddiffygio. Parhaodd â'i ddawns.

Daeth yn nes ac yn nes ac yn nes.

Nes yn y diwedd gorweddodd yn undod perffaith ar gynhesrwydd y llwybr. Y glöyn a'i gysgod, llychyn o greadur yn cael ei daflu ar donnau'r dydd, yn llonydd. Yn un â'i enaid. Yr ymryson drosodd, ei batrymau lliwgar wedi peidio dawnsio ac wedi anwesu'r cysgod nes ei fod wedi peidio a bod. Am y tro.

Am y tro, fe orweddodd yn gwbl lonydd. Ei liwiau'n yfed gwres y dydd a'i gysgod yn dawel oddi tano. Am y tro. Am ennyd fer. Fe brofodd yr hedd na ŵyr y byd amdano.

Ond dim ond am y tro. Dim ond am ennyd fer. Achos roedd o'n dal yn fyw. Roedd yr ysfa'n parhau ynddo i ymryson â'i gysgod, â'i enaid ei hun. Cododd a pharhaodd â'i ddawns. Ar naill ochr iddo'n llwydaidd a llwm, yr ochr arall yn lliwgar i'w ryfeddu a'i gysgod yn ei ddilyn i bobman, yn chwilio unwaith eto am un ennyd brin pryd gallai'r ddau gymuno.

Allwn ni obeithio am ragor na hynny? Am ragor na phrofiad un glöyn byw tra roeddwn i ar ras, rhwng dau gam, ar brynhawn dydd Sul gogoneddus ym mis Mai?

Arwel Rocet Jones

Dyddiadur Mehefin 2018

Gwasanaethau'r Sul 10.00 a 6.00 yn y Morfa,
2.15 yn Ebeneser

3 Eifion Roberts (cymun bore)

10 Dafydd Andrew Jones

17 Eifion Roberts

24 Adrian Williams

Ysgolion Sul - Plant ac Ieuenctid: bore Sul am 10.00

Clwb Hwyl Hwyr – bob prynhawn Llun, 3.45-5.00 yn Morlan

Clwb Ieuenctid – bob prynhawn Llun, 3.45-5.00 yn Morlan

Cylch Gweddi a Choffi – bore Mawrth am 10.30 yn Morlan

Astudiaeth Feiblaidd – nos Iau am 7.15 yn Morlan

Ffydd a Phaned – prynhawn Gwener am 2.00 yn Morlan

Swydd

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn chwilio am Weinyddydd Rhan Amser ar gyfer Canolfan Ffydd a Diwylliant y Morlan.

Oriau – 17.5 awr yr wythnos Tymor – Parhaol

Cyflogwr: Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Cyflog: £17,783 - £19,787 Pro rata

Dyddiad Cau: 29/05/2018 (8 diwrnod)

Amser Cau: 16:00:00

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Swyddogaethau Mehefin 2018

Blaenor y mis : L. John Roberts

Porthorion : Gwenan Creunant, Rhys Jones, Eirian Evans, Menna Evans

Blodau'r Cysegr – Y Morfa
3 Rhys a Jenny
10 Glenys James
17 Ifor a Falmai Davies
24 Joyce Knight a Violet Holden

Blodau Ebeneser
3 Marian Evans
10 Megan Evans
17 Catherine Jones
24 Megan Morris

Cynorthwywyr Llestri Cymun
3 (bore) Trish Huws, Beti Roberts, Enid Jones, Elsbeth Jones

Cynorthwywyr Ariannol
3 Elen Llwyd-Evans ac Elvey MacDonald
10 William a Mair Griffiths
17 Beti Roberts a Blodwen Williams
24 Alun a Mary Jones Morris

Tregerddan
24 Dan ofal Geraint Lewis Jones, Gwerfyl Pierce Jones a Brian Thomas

Cinio Bara a chaws
4 Byddin yr Iachawdwriaeth

Golygyddion y mis hwn yw Sarah a John. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst o PERTHYN at Sarahminyfron@hotmail.com erbyn dydd Gwener, 22 Mehefin os gwelwch yn dda.

Gweddi

Perthyn i'n gilydd

Heddiw, Arglwydd,
bydd pobl yn cael eu geni a bydd pobl
yn marw;
bydd pobl yn priodi, yn gadael cartref
ac yn sefydlu eu haelwydydd eu hunain;
bydd pobl yn gwledda a newynu,
yn gwneid arian, yn dwyn arian,
yn rhannu arian ag eraill;
bydd pobl yn llwyddo ac yn methu;
bydd rhai yn lladd a rhai yn caru a
thosturio.
Dyma dy deulu di, Arglwydd,
ac mae'n deulu mawr
a thu hwnt i'n dirniadaeth ni,
ac eto fe wyddom ein bod yn rhan ohono.
Tyn ni'n agosach at ein gilydd fel plant i ti;
dysg i ni ofalu am ein gilydd,
nid mewn gweddi achlysurol,
ond yn y ffordd y gwariwn ein harian,
a threulio'n hamser,
a bwrw'n pleidlais a magu'n plant.
Adnewydda'r teimlad yng nghalon pawb ohonom
ein bod yn perthyn i'n gilydd,
a boed i'r syniad o deulu fod yn real
yn ein meddwl ac yn ein bywyd,
fel y gallwn ofyn am hyn yn enw'r Iesu,
a'n dysgodd ni i'th alw di yn 'Dad'.

Amen

Meurwyn Williams, 1940-98 allan o Amser i Dduw, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts